OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 665

## Rheoliadau Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (Grantiau) (Cymru) 2016

**Troseddau a chosbau**

**14.**—(1) Mae person yn euog o drosedd—

(a) os yw'r person hwnnw yn gwneud datganiad sy'n anwir neu'n gamarweiniol mewn manylyn perthnasol gan wybod hynny, neu'n ddi-hid, er mwyn cael cymorth ariannol o dan y Rheoliadau hyn iddo'i hun neu i unrhyw berson arall;

(b) os yw'r person hwnnw yn gwneud datganiad sy'n anwir neu'n gamarweiniol mewn manylyn perthnasol gan wybod hynny, neu'n ddi-hid, mewn perthynas ag arfer, gan Weinidogion Cymru, y pwerau a bennir yn rheoliad 11(2);

(c) os yw'r person hwnnw yn methu, heb esgus rhesymol, â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan neu o dan reoliad 9(1)(b), 9(1)(d) neu reoliad 10; neu

(d) os yw'r person hwnnw yn rhwystro'n fwriadol berson awdurdodedig (neu berson sy'n mynd gyda pherson awdurdodedig ac yn gweithredu o dan ei gyfarwyddyd) sy'n gweithredu i roi'r Rheoliadau hyn ar waith.

(2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan baragraff (1)(a) neu (b) yn agored—

(a) o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy, neu i'w garcharu am gyfnod na fydd yn hwy na thri mis, neu'r ddau; neu

(b) o'i gollfarnu ar dditiad, i ddirwy, neu i'w garcharu am gyfnod na fydd yn hwy na dwy flynedd, neu'r ddau.

(3) Mae person sy'n euog o drosedd o dan baragraff (1)(c) neu (d) yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), caniateir cychwyn achos cyfreithiol am drosedd o dan baragraff (1)(c) neu (d) o fewn y cyfnod o chwe mis o'r dyddiad y bydd tystiolaeth, sy'n ddigonol ym marn yr erlynydd i gyfiawnhau'r achos cyfreithiol, yn dod yn hysbys i'r erlynydd.

(5) Ni chaniateir cychwyn unrhyw achos cyfreithiol am drosedd o dan baragraff (1)(c) neu (d) fwy na thair blynedd ar ôl cyflawni'r drosedd.

(6) Pan ddygir achos cyfreithiol at ddibenion paragraff (4)—

(a) bydd tystysgrif a lofnodwyd gan neu ar ran yr erlynydd ac yn datgan ar ba ddyddiad y daeth tystiolaeth a oedd yn ddigonol ym marn yr erlynydd i gyfiawnhau dwyn yr achos cyfreithiol, yn hysbys i'r erlynydd, yn dystiolaeth derfynol o'r ffaith honno;

(b) bernir bod tystysgrif, sy'n datgan y mater hwnnw ac yn honni ei bod wedi ei llofnodi felly, wedi ei llofnodi felly, oni phrofir i'r gwrthwyneb.